# STOP RACIST RUGBY

**SOUTH WALES CAMPAIGN AGAINST RACISM IN SPORT**

## APARTHEID SPORT – THE FACTS

South Africa's sports policy is designed to confuse the world in order to get racist South Africa accepted in world sports. The White minority, enjoying economic privilege and political power, have extensive leisure time. Sport is an important form of employment for White South Africans. Though economically well off, the Whites are culturally isolated. World criticism of the abhorrent system of apartheid has led to certain contacts with the outside world being cut. Sport, and especially rugby, is one of these. White South Africans want to keep this contact, even to the extent that the main qualification of the South African ambassador to Britain is his rugby background.

South African sport is a world where race shapes and distorts everything. The outsider is confused by the use of such terms as racial, non-racial, multi-racial, multi-national and inter-racial. The object is to gain acceptance for White South Africa in world sports. To achieve this, mixed teams play in a few special events at top levels; the racist pattern at club and regional levels is maintained. The occasional token Black is used to gain international recognition.

## SAY NO TO THESE BARBARIANS IN WALES

The games to be played by the so-called South African Barbarians against Llanelli, Newport and probably a third Welsh club, are a disgrace to Welsh rugby, which has a history of fairness and playing on merit. To play these teams is to support the fascist South African state. John Taylor in 1970 and Carl Smith recently have courageously expressed their feelings about playing South African teams. Remember also how the South African Government cancelled the M.C.C. tour of South Africa because of the selection of Basil d'Oliviera, a Black South African, for the British team.

The present so-called 'multi-racial team' comprises 8 Whites, 8 Blacks and Coloureds. Can you imagine a Welsh team selected in this way rather than on merit, or, perhaps, 2 from Llanelli, 2 from Newport, 2 from Cardiff and so on?

The Blacks chosen to play for the Barbarians belong to stooge rugby boards linked to the racist Rugby Board. They are poor quality players because the majority of Black players belong to the multi-racial Aouth African Rugby Union (SARU) which refuses to have any links with South Africa's racist rugby.

## DAMAGE TO BRITISH SPORT

This tour will undoubtedly damage British sport. It may very well affect Britain's future in the next Olympic Games. The French and Irish Governments have refused to allow racist rugby in their countries. The Tory Government has the power to do the same but has refused to do so.

We appeal to all supporters of rugby to oppose racist rugby and prevent the game from being brought into disrepute.

## PICKET THE GROUNDS – MOBILISE AGAINST THE TOUR

| | | |
|---|---|---|
| **Saturday October 20th** | **Maesteg or Pontypridd** | **Kick-Off 3p.m.** |
| **Wednesday October 24th** | **Llanelli** | **Kick-Off 7p.m.** |
| **Saturday October 27th** | **Newport** | **Kick-Off 3p.m.** |

p.p. South Wales Campaign against Racism in Sport, 57 Walter Rd., Swansea. 0792-43323

Anti-Apartheid Movement, Students' Union, University College College, Cardiff. 0222-396421

# RUGBY YES. RACIST RUGBY NO

# ATALIWCH RYGBI HILIOL

YMGYRCH DE CYMRU YN ERBYN HILIAETH

## CHWARAEON DAN APARTHEID-Y FFEITHIAU

Mae polisi chwaraeon De Affrica wedi ei gynllunio er mwyn drysu'r byd, er mwyn gwneud y wlad hiliol yma yn dderbyniol i'r byd chwaraeon y tu allan. Mae'r lleiafrif gwyn, sy'n mwynhau breintiau economaidd a phwer politicaidd, yn cael digon o amser i hamddena. Mae llawer o Dde Affricanwyr gwyn yn gweithio ym myd chwaraeon. Er eu bod yn gyfoethog yn economaidd, mae'r De Affricanwyr gwyn wedi eu hynysu'n ddiwylliannol. Torrwyd cysylltiadau â De Affrica oherwydd y beirniadu byd eang ar y drefn apartheid atgas yn y wlad. Torrwyd cysylltiad â'r wlad ym myd chwaraeon, ac wrth gwrs ym myd Rygbi. Mae pobl wyn De Affrica yn awyddus dros ben i adfer y cysylltiadau. Nid cyd-ddigwyddiad yw iddyn nhw anfon cyn-chwaraewr Rygbi i fod yn llysgennad dros y wlad ym Mhrydain.

Mae chwaraeon yn Ne Affrica yn fyd lle mae hil yn siapio ac yn ystumio popeth. Mae'n broses anodd i'r dieithryn ddeall termau fel, hiliol, anhiliol, amryw-hiliol, amryw-genedl a rhyng-hiliol. Y pwrpas yw ennill cydnabyddiaeth i Dde Affrica gwyn ym myd chwaraeon byd eang. Er mwyn cyrraedd y nod yma, ceir timau cymysg mewn ychydig o chwaraeon arbennig ar y lefel uchaf: ond mae'r gwahanu hiliol ar lefel rhanbarthol a'r clybiau yn aros. Weithiau, defnyddir y Dyn Du i ennill cydnabyddiaeth rhyng-wladol.

## NA I YMWELIAD Y BARBARIAID A CHYMRU

Mae'r gemau sydd i'w chwarae rhwng "Barbariaid De Affrica" a Llanelli, Casnewydd ac, mae'n debyg, un tim Cymreig arall yn dwyn gwarth ar Rygbi yng Nghymru. Mae'n difetha'r enw da oedd gan Rygbi Cymru am fod yn deg ac am ddewis chwaraewyr yn ôl eu haeddiant. Mae chwarae yn erbyn y timau o Dde Affrica yn golygu cefnogi gwlad Ffasgaidd. Mae John Taylor, ym 1970, a Carl Smith yn fwy diweddar wedi mynegi eu barn ar chwarae yn erbyn timau hiliol. Cofiwch hefyd fod llywodraeth De Affrica wedi gwahardd yr M.C.C. rhag chwarae yn y wlad, oherwydd iddynt ddewis Basil d'Oliviera, De Affricanwr Du, fel un o'r tim Prydeinig.

Gelwir tim y "Barbariaid" yn dim amryw-hiliol oherwydd ei fod yn cynnwys 8 dyn gwyn, 8 dyn du ac 8 o beth a elwir yn ddynion lliw. Allwch chi ddychmygu tim Rygbi Cymru un cael ei ddewis fel hyn - 2 o Lanelli, 2 o Gasnewydd, 2 o Gaerdydd ac yn y blaen, yn lle eu dewis yn ôl eu gallu i chwarae'r gem?

Mae'r dynion du a ddewiswyd i chwarae i'r Barbariaid yn perthyn i'r Bwrdd Rygbi Hiliol. Maen nhw'n chwaraewyr gwael oherwydd fod y mwyafrif o chwaraewyr du yn perthyn i Undeb Rygbi De Affrica (SARU) - bwrdd amryw-hiliol.

## NIWEIDIO CHWARAEON YM MHRYDAIN

Bydd y daith yma yn siŵr o niweidio chwaraeon ym Mhrydain. Efallai bydd yn effeithio dyfodol Prydain yn y Gemau Olympaidd nesaf. Mae llywodraethau Ffrainc ac Iwerddon wedi gwrthod caniatáu Rygbi hiliol yn eu gwlad. Gallai'r llywodraeth Doriaidd fod wedi gwneud yr yn peth ond doedd ganddyn nhw mo'r argyhoeddiad.

Rydym yn apelio ar bob cefnogwr Rygbi i wrthwynebu Rygbi hiliol fel na fydd enw da Rygbi Cymru yn cael ei lusgo drwy'r llaid.

**PICEDWCH Y MEYSYDD. YMUNWCH A'R YMGYRCH YN ERBYN Y DAITH.**

| | | |
|---|---|---|
| Sad. 20 Hydref | Maesteg neu Bontypridd | Cychwyn am dri'r p'nawn |
| Mer. 24 Hydref | Llanelli | Cychwyn am saith gyda'r nos |
| Sad. 27 Hydref | Casnewydd | Cychwyn am dri'r p'nawn |

Ymgyrch De Cymru yn erbyn hiliaeth mewn mabolgampau
57, Walter Road, Abertawe.

Mudiad Gwrth-Apartheid, Undeb y Myfyrwyr.
Coleg y Brifysgol, Caerdydd.

# RYGBI IE. RYGBI HILIOL NA